

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Llanrwst, Bwrdeistref Sirol
Conwy) (Traffig Unffordd Dros
Dro) 2019**

**The A470 Trunk Road (Llanrwst,
Conwy County Borough)
(Temporary One Way Traffic)
Order 2019**

Gwnaed 30 Gorffennaf 2019

Made 30 July 2019

Yn dod i rym 3 Awst 2019

Coming into force 3 August 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of the likelihood of danger to the public on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Traffig Unffordd Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 3 Awst 2019.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy County Borough) (Temporary One Way Traffic) Order 2019 and it comes into force on 3 August 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; ac

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicles being used by the emergency services; and

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy.

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A470 Maentwrog to East of Conwy Trunk Road.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, tua'r de ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Heol Dinbych hyd at ei chyffordd â'r B5106 (wrth barapet deheuol y Bont Fawr).

Cymhwysio

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Gorffennaf 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may drive any vehicle, other than an exempted vehicle, in a southbound direction on the length of the trunk road that extends from its junction with Denbigh Street to its junction with the B5106 (at the southern parapet of Pont Fawr).

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

30 July 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(LLANRWST, BWRDEISTREF SIROL CONWY)
(TRAFFIG UNFFORDD DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn i sicrhau bod traffig yn symud yn ddiogel ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys, rhag teithio tua'r de ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Heol Dinbych hyd at ei chyffordd â'r B5106 (wrth wal ddeheuol (parapet) y Bont Fawr).

Disgwylir y bydd y Gorchymyn dros dro yn dod i rym ar 3 Awst 2019 ac y bydd yn parhau mewn grym tan 10 Awst 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Fodd bynnag, dim ond am gyfnodau byr y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol, a hynny os bydd angen lliniaru tagfeydd yng nghanol Llanrwst yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol.

Tra bo'r traffig unffordd yn weithredol, y llwybr arall i draffig tua'r de fydd mynd ar Heol Dinbych, Heol Watling a Glanrhyd er mwyn ailymuno â'r A470.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://gwyddill.llyw.cymru/legislation/subordinate) ar <https://gwyddill.llyw.cymru/legislation/subordinate> (Detholer: Offerynnau statudol lleol/Gorchmynion traffig dros dro/2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (LLANRWST,
CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY
ONE WAY TRAFFIC) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the safe movement of traffic on or near the A470 trunk road at Llanrwst, Conwy County Borough.

The effect of the Order is to prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, from travelling southbound on the length of the A470 trunk road that extends from its junction with Denbigh Street to its junction with the B5106 (at the southern parapet of Pont Fawr).

The temporary Order is expected to come into force on 3 August 2019 and remain in force until 10 August 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. However, the temporary prohibition will only operate for short periods of time if there is a need to alleviate congestion in the centre of Llanrwst during the National Eisteddfod event.

Whilst one way traffic is in operation, the alternative route for southbound traffic is via Denbigh Street, Watling Street and Conwy Terrace to rejoin the A470.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gwyddill.gov.wales/legislation/subordinate> (Select: Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government